WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o Gyflwyno Gwasanaethau Gofal gyda Phum Tîm Ardal – **Cyngor Gwynedd**


Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1569A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o waith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb nac mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Alan Hughes, Euros Lake a Jeremy Evans dan gyfarwyddwyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae nod y Pum Tîm Ardal yn cyd-fynd yn naturiol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond trwy ymgorffori'r pum ffordd o weithio o fewn dull Ffordd Gwynedd y Cyngor, gallai fanteisio'n llawnach ar y cyfleoedd a gynigir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).


Adroddiad cryno

Crynodeb 5

Pam ein bod wedi cynnal yr Archwiliad 5

Yr hyn a archwiliwyd gennym 5

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r archwiliad 7

Mae nod y Pum Tîm Ardal yn cyd-fynd yn naturiol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond trwy ymgorffori'r pum ffordd o weithio o fewn dull Ffordd Gwynedd y Cyngor, gallai fanteisio'n llawnach ar y cyfleoedd a gynigir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 7

Mae'r Cyngor yn dathlu gwahaniaethau gweithredol ar gyfer y timau ardal ond mae angen iddo asesu'r hyn sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim; byddai hyn ynghyd â dadansoddi data ystyrlon a model ariannol cynaliadwy yn caniatáu i'r Cyngor ddeall a chynllunio'n well ar gyfer y tymor hir 7

Mae'r Cyngor yn cydnabod y buddion ataliol y mae gwasanaeth oedolion cynaliadwy a hygyrch yn darparu, ond mae angen iddo hyrwyddo cyswllt cynnar a gallai gwneud mwy i ddeall achosion sylfaenol y problemau y mae'r gwasanaeth yn ceisio mynd i'r afael â hwy 8

Yn weithredol, mae'r Cyngor a'r bwrdd iechyd wedi dangos eu hymrwymiad i ddull integredig, ond mae angen gwaith pellach i symud at ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig llawn ac ymgysylltu ag ystod ehangach o bartneriaid 9

Mae'r Pum Tîm Ardal yn dangos ymrwymiad y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd i gydweithio, ond mae cyfleoedd i sefydlu atebion a ffyrdd o weithio a rennir 10

Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda rhanddeiliaid wrth ailfodelu ei wasanaeth oedolion, ond byddai ymgysylltu'n well â defnyddwyr gwasanaeth yn helpu'r Cyngor i asesu effeithiolrwydd y trefniadau newydd 12

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 13

## Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 19

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam ein bod wedi cynnal yr Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. aosod eu hamcanion lles; a

b. chymryd camau i'w cyfarfod.

2 Mae’r Ddeddf yn diffinio’r egwyddor datblygu cynaliadwy fel un sy’n gweithredu mewn modd: ‘…sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharau ar allu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain’.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf blwyddyn cyn pob etholiad Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'r fath erbyn 2020, cyn etholiad Cynulliad 2021.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi bod yn cynnal archwiliadau ar draws y 44 corff a gwmpesir gan y Ddeddf i lywio ei adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

5 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng Awst a Hydref 2019.

6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o Gyflenwi Gwasanaethau Gofal gyda Phum Tîm Ardal, sef cam y mae Cyngor Gwynedd (y Cyngor) yn ei gymryd i gyflawni ei Amcanion Lles.

7 Mae hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

### Yr hyn a archwiliwyd gennym

8 Gwnaethom archwilio i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth Gyflwyno Gwasanaethau Gofal gyda Phum Tîm Ardal.

9 Er mwyn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y ‘ffyrdd o weithio’ canlynol:

Arddangosyn 1: y ‘pum ffordd o weithio’

Mae’r tabl isod yn nodi’r ‘pum ffordd o weithio’ fel y’u diffinnir yn nogfen **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion** Llywodraeth Cymru.[1]

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a’r angen am ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.<br>**Atal**<br>Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.<br>**Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar bob un o’u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.<br>**Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu’r corff i fodloni ei amcanion llesiant.<br>**Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

10 Canfu ein harchwiliad: **Mae nod y Pum Tîm Ardal yn cyd-fynd yn naturiol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond trwy ymgorffori'r pum ffordd o weithio o fewn dull Ffordd Gwynedd y Cyngor, gallai fanteisio'n llawnach ar y cyfleoedd a gynigir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).**

[1] Llywodraeth Cymru, **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, Yr Hanfodion Llywodraeth Cymru**, 2015.

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r archwiliad

### Mae nod y Pum Tîm Ardal yn cyd-fynd yn naturiol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond trwy ymgorffori'r pum ffordd o weithio o fewn dull Ffordd Gwynedd y Cyngor, gallai fanteisio'n llawnach ar y cyfleoedd a gynigir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

11 Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar gymhwyso ei ddull 'canolbwyntio ar ddinasyddion' sef 'Ffordd Gwynedd'. Wrth reoli'r negeseuon sy'n ymwneud â'i ffordd o weithio, prin ydy'r dystiolaeth neu enghreifftiau o swyddogion yn y Cyngor sydd yn hyddysg yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. O ganlyniad, ni allai nifer o swyddogion ddangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth i'r egwyddor datblygu cynaliadwy na'r pum ffordd o weithio.

12 Gallai'r Cyngor ddangos yn well bod 'Ffordd Gwynedd' yn ymgorffori'n llawn y pum ffordd o weithio trwy ddefnyddio ymadroddion allweddol yn ei weledigaeth drosfwaol. Byddai hyn yn dangos yn gliriach sut mae'r agweddau hyn yn cael eu cynnwys fel rhan o broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

### Mae'r Cyngor yn dathlu gwahaniaethau gweithredol ar gyfer y timau ardal ond mae angen iddo asesu'r hyn sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim; byddai hyn ynghyd â dadansoddi data ystyrlon a model ariannol cynaliadwy yn caniatáu i'r Cyngor ddeall a chynllunio'n well ar gyfer y tymor hir

#### Yr hyn yr oeddem yn edrych amdano

13 Gwnaethom edrych am dystiolaeth o:

- dealltwriaeth drylwyr o anghenion cyfredol a thymor hir a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros amserlen briodol;
- adnoddau'n cael eu dyrannu i sicrhau buddion tymor hir; a
- monitro ac adolygu priodol.

14 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

[2] Gweler Atodiad 1

### Yr hyn a ganfuom

15 Gwnaethom nodi'r cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn deall y pwysau cyfredol ar y gwasanaeth ac yn credu y bydd y pwysau'n cynyddu dros y tymor canolig i'r tymor hir; a
- mae dull y Cyngor o roi'r unigolyn yng nghanol popeth y mae'n ei wneud, yn cysylltu'n dda â'i nod o sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth nawr ac yn y dyfodol.

16 Gwnaethom nodi'r cyfleoedd canlynol:

- mae'r Cyngor yn dathlu'r gwahaniaethau swyddogaethol a welir ym mhob ardal, ond nid yw'n glir a yw'r gwahaniaethau wedi'u bwriadu ai peidio neu a all y Cyngor fod yn sicr bod gan ddinasyddion ledled y sir fynediad teg at wasanaethau;
- heb ddadansoddiad data ystyrlon i ddeall y galw a'r effaith yn nhermau angen cyfredol ac yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn defnyddio lluniau geiriol ac astudiaethau achos i ddal straeon unigolion. Byddai defnyddio data yn well yn gwella gallu'r Cyngor i lunio'r gwasanaeth ac i benderfynu a yw'n llwyddiannus ai peidio;
- byddai saib ac adolygiad gan ystyried effeithiolrwydd, economi ac effeithlonrwydd atebion cyfredol ym mhob un o'r timau ardal, gan asesu'r hyn sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim cystal, yn helpu'r Cyngor i nodi'r camau nesaf ar gyfer pob lleoliad;
- mae angen i'r Cyngor ddatblygu model adnoddau cynaliadwy ar gyfer y Timau Ardal (pobl, lle, arian) yn y tymor canolig i'r tymor hir, gan leihau ansicrwydd.

## Mae'r Cyngor yn cydnabod y buddion ataliol y mae gwasanaeth oedolion cynaliadwy a hygyrch yn darparu, ond mae angen iddo hyrwyddo cyswllt cynnar a gallai gwneud mwy i ddeall achosion sylfaenol y problemau y mae'r gwasanaeth yn ceisio mynd i'r afael â hwy

### Yr hyn yr oeddem yn edrych amdano

17 Gwnaethom edrych am dystiolaeth o:

- ddealltwriaeth drylwyr o natur a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu waethygu;
- adnoddau'n cael eu dyrannu i sicrhau y bydd buddion ataliol yn cael eu darparu; a
- monitro ac adolygu pa mor effeithiol y mae'r cam yn atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

18 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuom

19 Gwnaethom nodi'r cryfder canlynol:

- mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r buddion ataliol o ddarparu cyfleoedd i oedolion wella eu lles a chynnig gwasanaeth sy'n cynyddu lefel ymyrraeth ac atal cynnar, gyda gwell mynediad at wybodaeth ac adnoddau cymunedol gyda'r bwriad o leihau'r angen am wasanaethau gofal oedolion.

20 Gwnaethom nodi'r cyfle canlynol:

- er bod yr agenda ataliol yn rhan gynhenid o weithrediad y pum tîm ardal, gallai'r Cyngor a'i bartneriaid:
  - wneud mwy i annog pobl i gyflwyno'n gynharach ac elwa o fanteision ymyrraeth ataliol/gynharach; ac
  - archwilio ymhellach botensial dadansoddeg data i fynd ati i symud ymlaen â'r agenda ataliol. Er enghraifft galw/maint, y mathau o wasanaethau sydd eu hangen a dealltwriaeth ddyfnach o achosion sylfaenol problemau y mae'r gwasanaeth yn ceisio mynd i'r afael â hwy.

## Yn weithredol, mae'r Cyngor a'r bwrdd iechyd wedi dangos eu hymrwymiad i ddull integredig, ond mae angen gwaith pellach i symud at ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig llawn ac ymgysylltu ag ystod ehangach o bartneriaid

### Yr hyn yr oeddem yn edrych amdano

21 Gwnaethom edrych am dystiolaeth o ystyried:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion lles a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflwyno'r cam hwn yn effeithio ar amcanion lles cyrff cyhoeddus eraill.

22 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

[3] Gweler Atodiad 1

[4] Gweler Atodiad 1

### Yr hyn a ganfuom

23 Gwnaethom nodi'r cryfder canlynol:

- mae timau rheng flaen y cyngor a'r Bwrdd Iechyd, ynghyd â chynrychiolwyr o'r trydydd sector, eisoes yn profi rhai llwyddiannau; dystiolaeth hyn beth y gellir ei gyflawni drwy weithio integredig.

24 Gwnaethom nodi'r cyfleoedd canlynol:

- mae swyddogion Cyngor y buom yn siarad â nhw yn mynegi ar lafar ymwybyddiaeth o effaith eu gweithgaredd ar amcanion lles eraill y Cyngor a'r nodau llesiant cenedlaethol, ond ni chaiff hyn ei gydnabod na'i gofnodi'n ffurfiol.
- mae'r Cyngor yn ymwybodol o effaith eu gweithgaredd ar amcanion lles BIPBC, ond gallai wneud mwy i ymgysylltu ac integreiddio â rhanddeiliaid eraill a phartneriaid posibl.
- byddai mynd ati i chwilio am a datblygu ystod lawn o bartneriaid mewnol ac allanol a helpu i gefnogi'r symudiad i ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig gwirioneddol yn dod â budd.
- gwnaed ymdrechion i gydleoli aelodau tîm Gwasanaethau Iechyd ac Oedolion sy'n darparu cyfleoedd i ymarferwyr weithio gyda'i gilydd er budd defnyddwyr gwasanaeth. Mae staff yn adrodd am fanteision cydweithio o ganlyniad i gael eu cydleoli ond nid yw diffyg arweinyddiaeth strategol yn helpu i yrru newid trwy gefnogi dadflocio rhwystrau i weithio'n fwy integredig. O'r herwydd, mae gwahaniaethau diwylliannol allweddol a ffiniau sefydliadol / gweithredol yn parhau i rwystro gwir weithio integredig.
- dyma enghreifftiau eraill o rwystrau i weithio mwy integredig gyda phartneriaid iechyd:
  - TG (rhwydweithiau, caledwedd a meddalwedd);
  - gwybodaeth – un fersiwn o'r gwirionedd/cofnod sengl; a
  - rhannu adnoddau (er enghraifft cymorth gweinyddol, therapyddion galwedigaethol).

## Mae'r Pum Tîm Ardal yn dangos ymrwymiad y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd i gydweithio, ond mae cyfleoedd i sefydlu atebion a ffyrdd o weithio a rennir

### Yr hyn yr oeddem yn edrych amdano

25 Gwnaethom edrych am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion lles, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion lles);
- yn cydweithredu'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac

- yn monitro ac yn adolygu a yw'r cydweithredu yn ei helpu ef neu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion lles.

26 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cydweithredu’ yr ydym wedi’u nodi a’u defnyddio fel rhan o’r archwiliad hwn.[5]

## Yr hyn a ganfuom

27 Gwnaethom nodi'r cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn cydweithredu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu dull integredig trwy'r pum tîm ardal;
- mae’r Cyngor yn recordio straeon rhai unigolion i ddangos bod darparu gwasanaeth cydgysylltiedig yn effeithiol;
- ar hyn o bryd mae IAA Cyngor Gwynedd yn cael ei weithredu gan staff y Cyngor a dyma'r pwynt mynediad at wasanaethau'r Cyngor. Mae cynlluniau ar waith i gynnwys BIPBC yn yr IAA integredig; a
- dywedodd bron i ddwy ran o dair o'r gofalwyr a arolygwyd yng Ngwynedd yn ystod 2017-18 wrthym eu bod wedi darganfod y gallai eu hanghenion fel gofalwr gael eu hasesu am gymorth trwy weithiwr proffesiynol (yn hytrach na gwybodaeth gyhoeddedig, er enghraifft). Mae hyn yn awgrymu gwybodaeth dda gan y Cyngor a'i bartneriaid (e.e. iechyd) ynghylch llwybrau mynediad - arwydd o berthnasoedd gwaith cadarnhaol.

28 Gwnaethom nodi'r cyfleoedd canlynol:

- mynegodd cyrff trydydd sector awydd i ymgysylltu mwy â'r Cyngor, ac roeddent yn awyddus i ddatblygu mwy o gyfleoedd i gyfrannu at yr agenda lles;
- er na fwriedir i hybiau fod yn lleoliad corfforol i unigolion gyflwyno ynddynt, canlyniad y canolfannau o bosibl yw bod pobl yn bresennol yn y lleoliadau hynny, felly mae angen i'r Cyngor ystyried sut y bydd yn rheoli'r sefyllfa hon gan ei bod yn ymddangos nad oes presenoldeb ffurfiol yn rhai o'r hybiau; a
- mae staff yn cydnabod gwerth ychwanegol cydweithredu rhagweithiol gyda grwpiau fel meddygon teulu a'r trydydd sector, ond mae angen i'r Cyngor wneud mwy i sicrhau bod buddion o'r fath yn cael eu darparu ym mhob cymuned.

[5] Gweler Atodiad 1

# Mae’r Cyngor wedi gweithio gyda rhanddeiliaid wrth ailfodelu ei wasanaeth oedolion, ond byddai ymgysylltu'n well â defnyddwyr gwasanaeth yn helpu'r Cyngor i asesu effeithiolrwydd y trefniadau newydd

## Yr hyn yr oeddem yn edrych amdano

29 Gwnaethom edrych am dystiolaeth bod y Cyngor wedi:

- nodi pwy y mae angen iddo ei gynnwys wrth gynllunio a chyflawni'r cam;
- cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn effeithiol wrth gynllunio a chyflawni'r cam;
- defnyddio canlyniadau cyfranogiad i lunio datblygiad a chyflwyniad y cam; a
- ceisio dysgu gwersi a gwella ei ddull o gynnwys eraill.

30 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cyfranogiad’ yr ydym wedi’u nodi a’u defnyddio fel rhan o’r archwiliad hwn.[6]

## Yr hyn a ganfuom

31 Gwnaethom nodi'r cryfder canlynol:

- mae asesu unigolion gan ddefnyddio sgwrs sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n bwysig yn fodd i gynnwys pobl mewn dewisiadau a wneir am eu gofal a'u lles, ar lefel unigol. Yn unol â'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant, mae'r Cyngor yn ystyried hyn fel nod craidd ei ddull gweithredu.

32 Gwnaethom nodi'r cyfleoedd canlynol:

- mae cysylltwyr cymunedol yn mapio cyfleoedd i unigolion ymgymryd â gweithgaredd a chefnogaeth yn y gymuned. Er bod cynlluniau i gyhoeddi'r wybodaeth mewn llyfrynnau, mae angen i'r Cyngor wneud y defnydd gorau o allfeydd eraill fel cyfryngau cymdeithasol a chynnwys ar y we.
- awgrymodd rhai o'r cynrychiolwyr o'r trydydd sector fod ymgysylltu â'r Cyngor wedi dod yn anodd, a chyfleoedd i gyfrannu'n fwy cyfyngedig, yn bennaf oherwydd pryderon nad yw corff cydgysylltu’r trydydd sector bellach yn gwbl annibynnol ar ddarparu gwasanaethau a gallai wrthdaro wrth gynrychioli'r ystod o safbwyntiau trydydd sector.

[6] Gweler Atodiad 1

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

33 Ar ôl gorffen ein gwaith maes gwnaethom gyflwyno ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Hydref 2019. Yn y gweithdy hwn, dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy a myfyrio ymhellach ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol.

Arddangosyn 2: ymateb y Cyngor – gweithredoedd

| **Hirdymor** | |
|---|---|
| Mae'r Cyngor yn dathlu'r gwahaniaethau swyddogaethol a welir ym mhob ardal, ond nid yw'n glir a yw'r gwahaniaethau wedi'u bwriadu ai peidio neu a all y Cyngor fod yn sicr bod gan ddinasyddion ledled y sir fynediad teg at wasanaethau. | Mae'r gwasanaethau craidd yn gyson ar draws y 5 Tîm Adnodd Cymunedol sydd yn sicrhau mynediad hafal i wasanaethau ar gyfer dinasyddion Gwynedd. Wrth ail ddylunio'r gwasanaeth a gwreiddio dulliau newydd o weithredu, mae timau penodol yn treialu ffyrdd newydd o weithio. Bydd y rhain yn cael eu gwerthuso, ac os yn addas yn cael eu cyflwyno ar draws Gwynedd gyfan i sicrhau cysondeb. |
| Heb ddadansoddiad data ystyrlon i ddeall y galw a'r effaith yn nhermau angen cyfredol ac yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn defnyddio lluniau geiriol ac astudiaethau achos i ddal straeon unigolion. Byddai defnyddio data yn well yn gwella gallu'r Cyngor i lunio'r gwasanaeth ac i benderfynu a yw'n llwyddiannus ai peidio. | Mae Cyngor Gwynedd, Môn a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi cytuno ar fesuryddion i fesur llwyddiant y Timau Adnodd Cymunedol gyferbyn a'i pwrpas o "Fy helpu i fyw fy mywyd fel yr ydw i eisiau ei fyw". Bydd rhaglen waith benodol ar gyfer gwreiddio'r mesuryddion o fewn ymarfer a dadansoddi'r wybodaeth er mwyn addasu a gwella gwasanaethau yn barhaus er budd trigolion Gwynedd. |
| Byddai saib ac adolygiad gan ystyried effeithiolrwydd, economi ac effeithlonrwydd atebion cyfredol ym mhob un o'r timau ardal, gan asesu'r hyn sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim cystal, yn helpu'r Cyngor i nodi'r camau nesaf ar gyfer pob lleoliad. | Mae newidiadau o fewn y Gwasanaeth yn cael eu adolygu a'u gwerthuso yn barhaus ar lefel trafodaethau un i un, gweithredol a strategol. Cynhaliwyd gweithdai i adolygu y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth fis Ionawr 2019 a Medi 2019. Mae canfyddiadau'r gweithdai yn cyfrannu i flaenoriaethau rhaglen waith y gwasanaeth Gwybodaeth Cyngor a Chymorth. Cynhaliwyd gweithdai staff ar gyfer pob Tîm Adnodd Cymunedol fis Hydref 2019 i sefydlu gwaelodlin a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y deunaw mis nesaf.<br>Mae Cyngor Gwynedd wedi ail strwythuro y Gwasanaeth Oedolion i gefnogi model 5 Tîm Adnodd Cymunedol. Mae'r strwythur staffio ar gyfer darparu gwasanaeth i ddinasyddion Gwynedd yn gynaliadwy. Mae Cronfa Trawsffurfio Llywodraeth Cymru wedi galluogi ffurfio Tîm Trawsffurfio sydd yn adnodd ychwanegol dros dro fydd yn adeiladu ar y gwaith da sydd wedi digwydd eisoes, ac yn cefnogi'r arweinwyr ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol i |

| | |
|---|---|
| | adnabod a dileu rhwystrau, ail-ddylunio systemau, datblygu sgiliau a mesurau addas, gan ganolbwyntio ar beth sy'n bwysig i'r unigolyn. Nid yw'n fwriad i'r gefnogaeth fod mewn lle yn yr hir dymor.<br>Yn ogystal â'r adnodd dros dro i gefnogi'r gwaith trawsffurfio mae'r 'Cysylltydd Cymunedol' yn rôl sy'n cael ei dreialu ar gyfer hybu gweithgarwch cymunedol er mwyn ceisio ymateb i'r bylchau sy'n cael eu hadnabod ar lefel lleol. Er bod gwaith i'w wneud dros y flwyddyn nesaf i barhau i asesu gwerth y buddsoddiad ataliol hwn, mae'r buddion sydd wedi ei brofi hyd yma yn awgrymu fod gwerth i'r rôl yn y tymor hirach a bydd angen ystyried yn fuan y goblygiadau cyllidol fyddai ynghlwm a hynny. |
| Mae angen i'r Cyngor ddatblygu model adnoddau cynaliadwy ar gyfer y Timau Ardal (pobl, lle, arian) yn y tymor canolig i'r tymor hir, gan leihau ansicrwydd. | Bydd llwyddiant a chynaliadwyedd y pum Tîm ardal yn ddibynnol ar barodrwydd ein partneriaid i gydweithio ac integreiddio. |
| **Atal** | |
| Er bod yr agenda ataliol yn rhan gynhenid o weithrediad y pum tîm ardal, gallai'r Cyngor a'i bartneriaid:<br>• wneud llawer mwy i annog pobl i gyflwyno'n gynharach ac elwa o fanteision ymyrraeth ataliol/gynharach.<br>• gallai archwilio ymhellach botensial dadansoddeg data i fynd ati i symud ymlaen â'r agenda ataliol. Er enghraifft galw/maint, y mathau o wasanaethau sydd eu hangen a dealltwriaeth ddyfnach o achosion sylfaenol problemau y mae'r gwasanaeth yn ceisio mynd i'r afael â hwy. | Mae rhaglen waith y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cyfarch yr angen i sicrhau fod gwybodaeth ar gael yn haws i ddinasyddion Gwynedd. Bydd Cysylltwyr Cymunedol ar y cyd gyda'r Timau Adnoddau Cymunedol yn treialu dulliau gwahanol a chreadigol i sicrhau fod gan drigolion Gwynedd fynediad rhwydd at wybodaeth sydd o gymorth iddynt.<br>Dros y flwyddyn nesaf bydd trefniadau yn cael eu rhoi mewn lle i gasglu a chrynhoi gwybodaeth ynglŷn â'r bylchau sy'n bodoli yn ein cymunedau. Bydd hynny'n cael ei wneud trwy ystod ffyrdd megis dadansoddi achosion ein Timau trwy'r mesur perfformiad sydd mewn lle (Pam nad ydym wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn), data IAA, gwybodaeth gan bartneriaid a sgyrsiau a geir gyda cydweithwyr, grwpiau cymunedol a thrigolion. Bydd y wybodaeth yma yn bwydo i'n hasesiad parhaus o anghenion ein cymunedau er mwyn gallu adnabod a chytuno ar flaenoriaethau lleol fyddai'n ymateb i'r bylchau sy'n rhwystro unigolion gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt.<br>Byddwn yn parhau i dreialu a chomisiynu cynlluniau creadigol sy'n cynnig buddion ataliol amlwg, ond ar yr un pryd yn asesu yn gyson gwerth y buddsoddiadau o ystyried y canlyniadau y gellir eu tystiolaethu. |

| **Integreiddio** | |
|---|---|
| Mae swyddogion Cyngor y buom yn siarad â nhw yn mynegi ar lafar ymwybyddiaeth o effaith eu gweithgaredd ar amcanion lles eraill y Cyngor a'r nodau llesiant cenedlaethol, ond ni chaiff hyn ei gydnabod na'i gofnodi'n ffurfiol. | |
| Mae'r Cyngor yn ymwybodol o effaith eu gweithgaredd ar amcanion lles BIPBC, ond gallai wneud mwy i ymgysylltu ac integreiddio â rhanddeiliaid eraill a phartneriaid posibl. | Mae cryn fuddsoddiad wedi bod gan y Cyngor i gydweithio ac integreiddio gwasanaethau cymunedol gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae tystiolaeth fod yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant yn cydweithio yn agos gyda chymdeithasau tai yng Ngwynedd i ddatblygu hybiau cymunedol a Tai Gofal Ychwanegol. Mae rhaglen waith benodol mewn lle i wella cydweithio rhwng Y Cyngor a’r Heddlu. Mae presenoldeb y trydydd sector o fewn pob Tîm Adnodd Cymunedol yng Ngwynedd ac mae’r Cyngor yn awyddus i gryfhau'r berthynas gyda’r trydydd sector i ddatblygu datrysiadau lleol a gwasanaethau arbedol. |
| Byddai mynd ati i chwilio am a datblygu ystod lawn o bartneriaid mewnol ac allanol a helpu i gefnogi'r symudiad i ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig gwirioneddol yn dod â budd. | Mae cydnabyddiaeth fod angen cryfhau arweinyddiaeth strategol i gefnogi cael gwared ar rwystrau i weithio yn integredig. Fel ymateb i’r her yma, mae Bwrdd Gwasanaethau Integredig wedi ei ffurfio ar gyfer Cyngor Gwynedd, Môn a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ynghyd a Grŵp Cyflawni Integredig Oedolion. Mae Uwch Reolwr Trawsffurfio wedi ei phenodi, ynghyd a Tîm Trawsffurfio i weithio ar draws Cyngor Gwynedd, Môn a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i ddarparu arweiniad strategol clir ynghyd a chefnogaeth i’r Timau Adnodd Cymunedol i adnabod a dileu rhwystrau i weithio yn integredig. Bydd Arweinydd Trawsnewid yn cefnogi pob Tîm Adnodd Cymunedol yn unigol a hefyd yn cymryd arweiniad ar faterion penodol ar ran pob Tîm Adnodd Cymunedol sydd wedi eu sefydlu ar draws Gwynedd a Môn. Ynghyd a hyn byddant yn cefnogi gyda materion penodol sydd yn rwystrau ar draws Gwynedd megis:<br>• Treialu defnyddio WCCIS fel modd i sicrhau un dull cyffredin o gofnodi gwybodaeth o fewn un Tîm Adnodd Cymunedol dros y flwyddyn nesaf.<br>• Therapi Galwedigaethol – ffrwd gwaith benodol yn edrych ar sut ellir lleihau dyblygu a chynyddu capasiti trwy gydweithio mwy effeithiol rhwng Therapyddion Galwedigaethol cyflogedig i’r Awdurdod Lleol a’r Bwrdd Iechyd. |

| **Cydweithio** | |
|---|---|
| Mynegodd cyrff trydydd sector awydd i ymgysylltu mwy â'r Cyngor, ac roeddent yn awyddus i ddatblygu mwy o gyfleoedd i gyfrannu at yr agenda lles; | Mae'r Trydydd Sector yn cyfrannu i'r agenda Llesiant ar lefel strategol, gweithredol a lleol yng Ngwynedd. Ynghyd a'r Grŵp Cyswllt sydd mewn lle mae presenoldeb y Trydydd Sector ar y Bwrdd Gwasanaethau Integredig ar gyfer y Gorllewin; Grŵp Cyflawni Integredig Oedolion Gwynedd, Môn a'r Bwrdd Iechyd; a phresenoldeb o fewn pob un o'r timau adnoddau cymunedol. Mae'r Cyngor yn gyson agored i addasu'r trefniadau sydd mewn lle er mwyn ceisio sicrhau fod gennym y trefniadau fwyaf addas bosib i hyrwyddo cydweithio er lles ein trigolion. |
| Er na fwriedir i hybiau fod yn lleoliad corfforol i unigolion gyflwyno ynddynt, canlyniad y canolfannau o bosibl yw bod pobl yn bresennol yn y lleoliadau hynny, felly mae angen i'r Cyngor ystyried sut y bydd yn rheoli'r sefyllfa hon gan ei bod yn ymddangos nad oes presenoldeb ffurfiol yn rhai o'r hybiau. | Mae Gwynedd ar y daith o drawsffurfio ac integreiddio gwasanaethau. Mae cytundeb i sefydlu y Timau Adnodd Cymunedol a'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth fesul cam. Yn gyfredol, mae dinasyddion Gwynedd yn gallu cysylltu â'r gwasanaeth dros y ffon neu mewn person yn y 5 drws ffrynt yn y Timau Adnodd Cymunedol. Mae rhaglen waith y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cyfarch yr angen i fynd a'r gwasanaeth allan i'r cymunedau.<br>Mae cydnabyddiaeth fod y timau mewn lle gwahanol ar y siwrnai. Wrth ail ddylunio'r gwasanaeth a gwreiddio dulliau newydd o weithredu, mae timau penodol yn treialu ffyrdd newydd o weithio. Bydd y rhain yn cael eu gwerthuso, ac os yn addas yn cael eu cyflwyno ar draws Gwynedd gyfan i sicrhau cysondeb. |
| Mae staff yn cydnabod gwerth ychwanegol cydweithredu rhagweithiol gyda grwpiau fel meddygon teulu a'r trydydd sector, ond mae angen i'r Cyngor wneud mwy i sicrhau bod buddion o'r fath yn cael eu darparu ym mhob cymuned. | Mae'r weledigaeth yn nodi yn glir y bwriad i gydweithredu gyda meddygon teulu a'r trydydd sector. Bydd rhaglen waith y Tîm Trawsffurfio yn cefnogi sicrhau ymrwymiad partneriaid allweddol ym mhob ardal dros y deunaw mis nesaf. |
| **Cynnwys** | |
| Mae cysylltwyr cymunedol yn mapio cyfleoedd i unigolion ymgymryd â gweithgaredd a chefnogaeth yn y gymuned. Er bod cynlluniau i gyhoeddi'r wybodaeth mewn llyfrynnau, mae angen i'r Cyngor wneud y defnydd gorau o allfeydd eraill fel cyfryngau cymdeithasol a chynnwys ar y we. | Mae Grŵp Tasg Gwybodaeth wedi ei sefydlu i sicrhau cysondeb yn y ffordd mae gwybodaeth am wasanaethau llesiant ar gael i gynulleidfa mor eang a phosibl, yn staff rheng flaen a thrigolion. Mae'r rhaglen waith yn rhoi sylw i'r defnydd o wefannau cymdeithasol ac adolygu gwefan yr Adran. |

| | |
|---|---|
| Awgrymodd rhai o'r cynrychiolwyr o'r trydydd sector fod ymgysylltu â'r Cyngor wedi dod yn anodd, a chyfleoedd i gyfrannu'n fwy cyfyngedig, yn bennaf oherwydd pryderon nad yw corff cydgysylltu'r trydydd sector bellach yn gwbl annibynnol ar ddarparu gwasanaethau a gallai wrthdaro wrth gynrychioli'r ystod o safbwyntiau trydydd sector. | Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r sylwadau sydd wedi cael eu gwneud gan gynrychiolwyr y 3ydd Sector.<br>Nodir hefyd fod Grŵp Cyswllt Trydydd Sector yn bodoli sy'n gyfrwng strategol i gynnal deialog rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector. Prif rôl y Grŵp yw sicrhau rhannu gwybodaeth effeithiol ymysg yr aelodau a sicrhau fod cydweithio parhaus yn digwydd. Mae hwn yn gyfrwng arall y gellir ei ddefnyddio i ddylanwadu ynghyd a'r fforymau mewn meysydd unigol sydd eisoes yn bodoli.<br>Mae trefniadau ar waith i sicrhau fod pob unigolyn yn cael cynnig copi ysgrifenedig o'i Cynllun Gofal a Chefnogaeth.<br>Mae rhaglen waith benodol mewn lle ar gyfer anghenion gofalwyr.<br>Mae rhaglen waith mewn lle i sefydlu trefniadau sicrwydd ansawdd fydd yn cyfarch yr angen i gasglu barn unigolion a'u gofalwyr o'r gefnogaeth a gwasanaethau maent wedi ei dderbyn gan y Cyngor.<br>Rydym wedi adnabod fod yna le i wella ansawdd ein Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a byddwn yn edrych i gryfhau ein trefniadau o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2020-24. Rhagwelir y bydd y gwaith hyn yn un o amcanion y Cynllun newydd fydd yn cynnwys hyfforddiant penodol i Aelodau Etholedig a staff gyda'r bwriad o'u harfogi i allu cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb amserol llawn (ynghyd a herio eu cynnwys) fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.<br>Mae mesurau y Timau Adnodd Cymunedol yn seiliedig ar sicrhau barn dinasyddion Gwynedd ynghylch ydi'r ymyraethau wedi eu galluogi i gwrdd a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r wybodaeth yma yn greiddiol i adnabod llwyddiannau; anghenion na ellir eu diwallu a meysydd i'w datblygu. Bydd gwaith yn parhau dros y flwyddyn nesaf i wreiddio'r mesuryddion a'i dadansoddi i sicrhau ein bod yn cyflawni yn erbyn ein pwrpas. |
| **Corfforaethol** | |
| Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar gymhwyso ei ymagwedd sy'n 'canolbwyntio ar ddinasyddion' 'Ffordd Gwynedd'.<br><br>Wrth reoli'r negeseuon sy'n ymwneud â'i ffordd o weithio, prin ydy'r dystiolaeth neu enghreifftiau o swyddogion yn y Cyngor sydd yn hyddysg yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. O ganlyniad, ni allai nifer o swyddogion ddangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth i'r | Fel y nodir, rydym fel Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ac yn buddsoddi'n sylweddol ar roi egwyddorion Ffordd Gwynedd ar waith er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Er bod llawer o waith wedi ei wneud er mwyn arfogi rheolwyr hefo'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn gallu cyflawni i bobl Gwynedd a bod tystiolaeth yn arddangos fod hynny'n digwydd yn barod mewn nifer o wasanaethau, mae gwaith pellach i'w gyflawni er mwyn gwreiddio'r meddylfryd a gwireddu'r uchelgais honno. O fod yn gwireddu'r uchelgais yn llawn rydym o'r farn fod yr egwyddorion wedi eu halinio hefo'r 5 ffordd o weithio sydd wedi eu hadnabod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). |

| | |
|---|---|
| egwyddor datblygu cynaliadwy na'r pum ffordd o weithio.<br><br>Gallai'r Cyngor ddangos yn well bod ' ffordd Gwynedd ' yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn llawn drwy ddefnyddio ymadroddion allweddol o fewn ei weledigaeth gyffredinol. Byddai hyn yn dangos yn gliriach sut y caiff yr agweddau hyn eu cynnwys fel rhan o broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor. | Nodir hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol er mwyn sefydlu i ba raddau mae'r 5 ffordd o weithio wedi eu hymgorffori yng ngwaith y Cyngor.<br>O dderbyn sylwadau'r archwiliad hwn a chanfyddiadau gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol y cyfeirir tuag ato uchod byddwn yn ystyried os oes yna unrhyw gyfleon i gadarnhau neu gryfhau'r cyswllt sy'n bodoli rhwng egwyddorion Ffordd Gwynedd a'r 5 ffordd o weithio. |

34 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth weithredu'r camau hyn, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u nodi yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Dangosyddion cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

### Arddangosyn 3: dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

Mae’r tabl isod yn nodi ‘dangosyddion cadarnhaol’ ar gyfer pob un o’r pum ffordd o weithio yr ydym wedi’u nodi. Nid ydym wedi defnyddio'r dangosyddion fel rhestr wirio. Dylid eu hystyried yn ddangosyddion. Fe wnaethant ein helpu i ddod i gasgliadau ynghylch y graddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio'r ffordd hirdymor o weithio yn llawn?** |
|---|
| • Mae dealltwriaeth glir o’r hyn y mae ‘hirdymor’ yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi cynllunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) lles a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi cynllunio'r cam i sicrhau buddion tymor byr neu ganolig, sy'n gytbwys â'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi cynllunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig o angen a phwysau cyfredol ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, mae dealltwriaeth gynhwysfawr o risgiau a chyfleoedd cyfredol ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau bod buddion tymor hir yn ogystal â thymor byr yn cael eu darparu.<br>• Mae ffocws ar gyflawni canlyniadau, gyda cherrig milltir/camau dilyniant wedi'u nodi lle bydd canlyniadau'n cael eu cyflawni dros y tymor hir.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i sicrhau buddion yn y tymor hwy.<br>• Maent yn gwerthfawrogi deallusrwydd ac yn dilyn dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio'r ffordd ataliol o weithio yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel y gellir mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau rhwng cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn gweld heriau o safbwynt y system gyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r buddion tymor hir y gallant eu darparu i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ganlyniadau gwell a defnyddio adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion tymor byr.<br>• Mae yna drefniadau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth gweithredu ataliol ac yn derbyn gostyngiadau tymor byr mewn perfformiad ac adnoddau wrth geisio gwella'r canlyniadau a ragwelir mewn canlyniadau a'r defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymryd agwedd 'integredig'? |
|---|
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at gyflawni'r amcanion gweledigaeth a lles.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Mae hyn yn cael ei ailadrodd yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod dibyniaethau traws-sefydliadol cyflawni'r uchelgais a'r amcanion.<br>• Mae yna ddiwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Mae dealltwriaeth ddatblygedig o sut mae'r amcanion lles a'r camau i'w cyflawni yn effeithio ar gyrff eraill y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio'n rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i gynyddu eu cyfraniad i'r eithaf ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae llywodraethu, strwythurau a phrosesau yn cefnogi hyn, fel y mae ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithredu'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda o amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i yrru gweithgaredd cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle rhennir gwybodaeth mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall pob partner eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio sefydlu prosesau a rennir a ffyrdd o weithio, lle bo hynny'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Bod â dealltwriaeth o bwy sydd angen cymryd rhan a pham.<br>• Myfyrio ar ba mor dda y mae'r anghenion a'r heriau sy'n wynebu'r bobl hynny yn cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Cydweithio'n gynhyrchiol, gweithio gyda rhanddeiliaid i gynllunio a chyflawni.<br>• Gweld barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i sicrhau gwell canlyniadau.<br>• Sicrhau bod amrywiaeth lawn y rhanddeiliaid yn cael ei gynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Cael perthnasoedd aeddfed ac ymddiriedus gyda'i randdeiliaid lle mae deialog barhaus, a rhannu gwybodaeth mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru